# YMLAEN, GYDA'N GILYDD:

## Gweledigaeth ar gyfer y rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau




TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Vernon Everitt | 4 |
| Rhagair gan James Price | 6 |
| Manteision | 8 |
| Adeiladu ar lwyddiant | 10 |
| Adeiladu Metro De Cymru | 12 |
| Cynlluniau a ariennir gan Adolygiad Gwariant 2025 | 14 |
| Cynlluniau â Gwaith Datblygu Sefydledig | 19 |
| Rhwydwaith Gogledd Cymru | 20 |
| Mae'r Metro yn rhan ganolog o Rwydwaith Gogledd Cymru | 22 |
| Prif Linell Gogledd Cymru | 24 |
| Canolbarth Cymru, Llinell y Gororau a ffiniau Lloegr | 26 |
| Prif Linell De Cymru | 28 |
| Camau Metro De Cymru yn y dyfodol | 30 |
| Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru | 32 |
| Datblygu Rheilffordd Cymru a'r Gororau: Senario cyllido – dros £10 biliwn | 34 |
| Casgliad | 36 |


Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnig cyfle unwaith mewn oes i ailsiapio'r ffordd mae ein cenedl yn symud, yn cysylltu ac yn ffynnu. Mae Ymlaen, Gyda'n Gilydd, yn amlinellu gweledigaeth hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer y rheilffyrdd sydd eisoes yn newid bywydau – ac sydd ar fin gwneud hynny ar raddfa hyd yn oed yn fwy.

# Rydym yn barod i helpu i drawsnewid Cymru

Yn 2015 doedd y syniad o gorff cyflawni trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn ddim mwy na geiriau ar fwrdd gwyn ym Mharc Cathays. Degawd yn ddiweddarach, mae Cymru wedi datblygu'r capasiti, y gallu a'r arbenigedd i gyflawni prosiectau trafnidiaeth sy'n trawsnewid bywydau, i greu cyfleoedd economaidd ac i gysylltu pobl a chymunedau â swyddi, hamdden a thai

**Mae'r gwaith i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, sydd bron â chael ei gwblhau, yn arwydd o'r cynnydd hwnnw. Mae arloesedd a chyflymder y gwaith hwnnw yn torri tir newydd yn y diwydiant, ac yn datgloi cyfleoedd – mae'n newid y ffordd mae pobl yn byw, yn gweithio, ac yn byw eu bywyd**

Mae arwyddion o drawsnewid hirdymor eisoes yn dod i'r amlwg i'r bobl, y busnesau a'r cymunedau y mae Llinellau Craidd y Cymoedd yn eu gwasanaethu. Ac mae hyn yn fwy na stori o lwyddiant yng Nghymru; mae'n lasbrint sy'n dangos sut gellir cyflawni prosiectau mawr mewn cyd-destun datganoledig. Rydym wedi dangos y gall Cymru – gyda'r arweinyddiaeth briodol, yr atebolrwydd lleol a'r cymhelliant – gyflawni'n gyflymach, yn well ac yn fwy effeithlon.

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, rydym bellach yn rhoi'r un egwyddorion ar waith yng nghyswllt Rhwydwaith Gogledd Cymru – gan gyflwyno gwelliannau mawr i'r rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol yn gyflym dros ben ac ar raddfa na welwyd o'r blaen.

Drwy fasnachfreinio bysiau, byddwn yn cychwyn gwireddu ein huchelgais gyffredinol o gael un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn – system trafnidiaeth gyhoeddus integredig sydd o fewn cyrraedd pob cymuned yng Nghymru.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Ymlaen, Gyda'n Gilydd: Gweledigaeth ar gyfer trawsnewid y rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau.



**Vernon Everitt**

Cadeirydd, Trafnidiaeth Cymru

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd i ddarparu gwell rheilffyrdd. Mae'n edrych ymlaen at raglen feiddgar a thrawsnewidiol o welliannau, ac yn archwilio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil diwygio rheilffyrdd Prydain Fawr a gwell model gweithredu rheilffyrdd.

Mae'r cyllid a neilltuwyd i brosiectau rheilffyrdd Cymru ar gyfer cyfnod yr adolygiad gwariant presennol yn ein galluogi i sbarduno cynnydd ar raglen o welliannau sydd wedi arafu – rhaglen a fydd yn trawsnewid cyflogaeth, twf economaidd, tai, a datblygiad economaidd-gymdeithasol ehangach.

Fodd bynnag, yn achos rhaglenni mawr fel Rhwydwaith Gogledd Cymru, dim ond cam cychwynnol tuag at ein huchelgais lawn yw'r lefel bresennol o gyllid.

Rydym ni'n credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r achos dros fuddsoddiad pellach yw parhau i ddangos ein bod yn cyflawni. Rhaid i ni sicrhau bod Cymru yn lle deniadol ar gyfer buddsoddi – yn enwedig wrth i wledydd a gweinyddiaethau datganoledig eraill ddilyn cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid trafnidiaeth.

I gefnogi hyn, ac fel rhan o'n gweledigaeth ehangach, rydym yn cyflwyno'r achos dros symleiddio trefniadau cyllido rheilffyrdd Cymru. Dyma un o fy mlaenoriaethau yn fy rôl fel Cadeirydd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru ar ei newydd wedd, a fydd â phwrpas cliriach a mwy strategol.

Er bod Bwrdd Rheilffyrdd Cymru wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddod â Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU at ei gilydd i flaenoriaethu gwelliannau i reilffyrdd yn y dyfodol, rydym ni o'r farn bod cyfle i ddysgu o fodelau cyllido a ddefnyddir mewn lleoedd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau ariannu ar gyfer awdurdodau maer yn Lloegr a'r model ariannu buddsoddi cydfuddiannol a ddefnyddiwyd ar uwchraddio diweddaraf i'r A465 yng Nghymru. Mae cyfleoedd hefyd i sicrhau buddsoddiad mewn trafnidiaeth drwy gipio gwerth tir. Bydd hyn yn cyflymu'r ddarpariaeth ac yn ei gwneud yn fwy effeithiol, gan adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol Cymru o ran cyflawni yn y maes rheilffyrdd.

Eleni, wrth i Railway 200 ddathlu 200 mlynedd ers sefydlu'r rheilffordd fodern, cawn ein hatgoffa o rôl arloesol Cymru yn natblygiad y rheilffordd – o'r daith reilffordd stêm gyntaf yn y byd ym Merthyr Tudful, i Dramffordd Abertawe a'r Mwmbwls, a'r rhwydwaith o lwybrau a oedd yn pweru diwydiannau trwm.

Gyda system drydaneiddio rannol a'r defnydd cyntaf ar raddfa fawr o drenau tri-modd, mae Cymru unwaith eto ar flaen y gad o ran newid technolegol.

Gan nodi uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i ddatganoli'r seilwaith rheilffyrdd yn llawn yng Nghymru, mae Ymlaen, Gyda'n Gilydd, yn adlewyrchu ein cred gyffredin yng ngallu trafnidiaeth i drawsnewid bywydau a lleoedd. Gyda'r buddsoddiad, y trefniadau llywodraethu a'r arweinyddiaeth briodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gyflawni.

Mae'n ddatganiad o fwriad, sy'n adlewyrchu ein hargyhoeddiad bod rheilffyrdd, a'r system trafnidiaeth gyhoeddus ehangach, yn ffactor hanfodol i alluogi cynnydd cymdeithasol, twf economaidd, a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Un rhwydwaith. Un amserlen.
Un tocyn. Un tîm.

# Mae diwygio'r rheilffyrdd yn gyfle euraid i Gymru

Mae buddsoddi mewn rheilffyrdd yn ffactor arwyddocaol er mwyn hwyluso twf economaidd. Mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio'r buddsoddiad hwnnw i greu'r effaith fwyaf bosibl, drwy sicrhau bod ein darpariaeth mor effeithlon â phosibl. Mae diwygio'r rheilffyrdd yn y DU yn golygu newid sylweddol yn y ffordd y bydd y system reilffyrdd yn gweithio, ac mae'n rhaid i ni yng Nghymru wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau'r holl fanteision posibl.



**James Price**

Prif Swyddog Gweithredol
Trafnidiaeth Cymru

**Pan fydd pobl yn fy stopio ar y stryd, maen nhw'n awr yn llawer mwy tebygol o ganmol y fflyd o drenau newydd nag o rannu rhwystredigaeth ynghylch oedi, trenau'n cael eu canslo neu wasanaeth gwael. Yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr, y llynedd ni oedd un o'r cwmnïau trenau a oedd wedi gwella fwyaf ym Mhrydain o ran prydlondeb. Wrth i wasanaethau newydd gael eu cyflwyno ac wrth i orsafoedd ar draws y rhwydwaith gael eu huwchraddio, rydym wir yn teimlo ein bod ni'n troi'r gornel. Ond, allwn ni ddim gorffwys ar ein rhwyfau – dim ond eu taith ddiweddaraf gyda ni sy'n aros yng nghof y cwsmer.**

Mewn ffordd a fyddai wedi bod yn anghredadwy ychydig flynyddoedd yn ôl, mae llunwyr polisïau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol yn troi at Gymru am ysbrydoliaeth wrth iddynt geisio mynd i'r afael â heriau trafnidiaeth gyhoeddus yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r trawsnewid hwnnw i'w weld fwyaf ar y Metro a'r seilwaith datganoledig yng Nghaerdydd, y Cymoedd a'r cyffiniau. Nid ydym wedi gweld buddsoddiad ar y raddfa hon yng Nghymru ers oes Fictoria, pan oedd rheilffyrdd i Dreherbert, Aberdâr, Merthyr a Rhymni yn pweru chwyldro diwydiannol Cymru. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn haeddu clod aruthrol am flaenoriaethu'r buddsoddiad hwnnw drwy gyfnodau economaidd anodd. Ond, mae'r ffaith mai Llinellau Craidd y Cymoedd yw'r rhan o rwydwaith Cymru a'r Gororau sy'n perfformio orau yn adlewyrchu hefyd ein penderfyniad i ddod â chledrau a threnau ynghyd unwaith eto – gan wrthdroi diwygiadau preifateiddio sydd wedi chwalu'r diwydiant.

Mae'r berthynas â Network Rail yng Nghymru yn well nag erioed, ac mae Nick Millington a'i dîm yn haeddu clod gwirioneddol am sbarduno gwell perfformiad a chefnogi rhaglenni mawr fel Rhwydwaith Gogledd Cymru. Ond er gwaethaf y cydweithio hwn, rhaid i ni gael y gallu a'r modd i fynd ymhellach. Mae llawer o'r cynnydd hwn wedi digwydd er gwaethaf y model gweithredu presennol – nid o'i herwydd.

Wrth i'r broses ddiwygio ar lefel Prydain gyrraedd cam tyngedfennol, mae gennym gyfle euraidd i gynllunio gwell model gweithredu yng Nghymru. Mae'n bwysig bod pob rhan o ddiwydiant rheilffyrdd Cymru yn dilyn un cynllun, gydag amcanion cyffredin. Pwrpas seilwaith rheilffyrdd yw cludo pobl a nwyddau'n ddiogel, felly mae'n gwneud synnwyr bod Network Rail yng Nghymru – neu, yn y dyfodol, GBR Cymru a'r Gororau – yn gweithio yn unol â set gyffredin o flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer trafnidiaeth, tai a datblygu economaidd.

Gallai'r broses o ddiwygio'r rheilffyrdd arwain at reilffordd unedig, gan amlinellu gofynion seilwaith a disgwyliadau o ran perfformiad, gydag arweiniad polisi ar heriau strategol allweddol fel gwrthsefyll yr hinsawdd. Os bydd GBR Cymru yn cael ei rymuso'n briodol ac yn gweithio mewn partneriaeth â TrC fel un tîm ar gyfer teithwyr a chludiant nwyddau, gallem weithio i ddileu prosesau a threfniadau cyllid cymhleth sy'n gwastraffu ynni ac adnoddau. Mae diwylliant o gontractio yn bodoli, sydd wedi cynyddu costau ac achosi oedi wrth uwchraddio. Er y bydd llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â hyn drwy GBR yn Lloegr, rydym yn gobeithio chwalu'r rhwystrau hynny yng Nghymru hefyd.

Rhaid i ni gynllunio a chyflawni gwelliannau'n fwy effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o gynlluniau, y bydd Bwrdd Gwelliannau Rheilffyrdd Cymru yn mynd ati'n awr i'w blaenoriaethu. Yn dilyn yr adolygiad o wariant, rydym yn ailddechrau'r gwaith ar brosiectau uwchraddio allweddol. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth y DU i ddatblygu gwell trefniadau cyllido sy'n ein galluogi i gyflymu a gwella'r ffyrdd o weithio rydym wedi'u datblygu drwy raglen Metro De Cymru. Yn y cyfamser, drwy fashnachfreinio'r gwasanaeth bysiau yng Nghymru, byddwn gam arall yn nes at gyflawni Rhwydwaith T a'n gweledigaeth o gael un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn ar gyfer pobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru.

Rwy'n annog pob partner i gydweithio â ni ar y cynlluniau a amlinellir yn y ddogfen hon ac i'n helpu i wneud yr achos cryfaf posibl dros fuddsoddi yn ein rhwydwaith rheilffyrdd.




Trên 756 ar Linellau Craidd y Cymoedd

# Manteision

**Mae ein dadansoddiad o'r cynigion a amlinellir yn y cynllun hwn yn dangos y byddai'n arwain at y canlynol bob blwyddyn:**

**13.3 miliwn** o deithiau newydd ar drenau

**3.8 miliwn** yn llai o deithiau mewn car

**115 miliwn** yn llai o gilomedrau gan gerbydau

**55k tunnell** yn llai o allyriadau carbon

Mae'r manteision economaidd uniongyrchol ac ehangach werth

**£6.3 biliwn**

i Economi Cymru

## Manteision economaidd ehangach

Gall rheilffyrdd wella'r cysylltedd rhwng lleoliadau cyflogaeth allweddol, gan roi hwb i gynhyrchiant busnesau. Bydd y rhaglen o welliannau yn rhoi cyfleoedd newydd i dros hanner miliwn o oedolion o oedran gweithio gyrraedd lleoliadau cyflogaeth o fewn awr ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gall gwella mynediad at reilffyrdd hefyd helpu i ysgogi datblygiadau ychwanegol o amgylch gorsafoedd, gan helpu i gynyddu nifer y cartrefi a'r swyddi, yn ogystal â chynyddu gwerth tir.

### Manteision cymdeithasol

Gall rheilffyrdd alluogi pobl i gael gafael ar wasanaethau allweddol sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd difreintiedig a lle nad oes llawer o bobl yn berchen ar gar.

### Manteision cymunedol

Gall gorsafoedd trenau fod yn ganolfannau ac yn asedau cymunedol allweddol, gan ddarparu cysylltedd â gwasanaethau pwysig. Gallant hefyd fod yn destun balchder i bobl leol, ac yn borth i'r ardal.

### Manteision amgylcheddol

Mae annog pobl i deithio ar drên yn hytrach na gyrru yn gallu arwain at leihau allyriadau, sy'n effeithio ar ansawdd yr aer yn yr ardal leol.

### Manteision i drafnidiaeth

Mae buddsoddi mewn rheilffyrdd yn arbed amser, yn lleihau gorlenwi, ac yn gwella dibynadwyedd y gwasanaeth a gynigir i deithwyr.

### Swyddi gwyrdd a thwf

Bydd y rhaglen yn debygol o greu dros 1,000 o swyddi parhaol a dros 6,100 o swyddi adeiladu.

### Cysylltu cymunedau

Drwy drawsnewid ein rheilffyrdd a chryfhau ein rhwydwaith bysiau, byddwn yn creu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig gydag 'asgwrn cefn' rheilffyrdd sy'n rhoi dewis arall go iawn i bobl yn lle'r car.

# Adeiladu ar lwyddiant



Trên 231 ar Linellau Craidd y Cymoedd

Ein nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu Rhwydwaith T, sy'n seiliedig ar egwyddorion un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn ar draws Cymru gyfan.

Mae biliynau'n cael eu buddsoddi i drawsnewid ein rhwydwaith rheilffyrdd. Rydym yn cefnogi twf economaidd ac yn creu cyfleoedd ar draws Cymru a'r Gororau drwy Rwydwaith Gogledd Cymru, Metro De Cymru a'n rhaglen o gynlluniau cyffrous eraill.

Cyn bo hir byddwn yn cwblhau'r gwaith o drydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn gallu darparu gwasanaethau gwyrddach, cyflymach ac amlach i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Rydym wedi cyflwyno tocynnau talu wrth fynd newydd ac wedi gwella'r amserlen drenau, wedi cynyddu nifer y gwasanaethau trên, gan wella'r integreiddio â gweithredwyr a gwasanaethau bysiau eraill ar draws Cymru a'r gororau.

Er mwyn parhau i wella gwasanaethau, rydym wedi sicrhau cyllid gan lywodraeth y DU drwy Adolygiad Gwariant 2025, sy'n gam hollbwysig ymlaen i'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi prosiectau, gan gynnwys:

- Uwchraddio gorsaf Caerdydd Canolog
- Gwella'r gwasanaeth, neu gynnig gwasanaeth amlach, ar Linell y Ddinas er mwyn gallu darparu pedwar trên yr awr
- Uwchraddio croesfannau rheilffordd ar gyfer Rhwydwaith Gogledd Cymru a mwy o wasanaethau
- Datblygu pum gorsaf newydd ar Brif Llinell De Cymru (Gorsafoedd 'Burns') a gwella'r llinellau lliniaru a gwasanaethau trawsffiniol newydd.


Mae uwchraddio gorsaf Caerdydd Canolog yn ffactor allweddol ar gyfer dyfodol gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn uwchraddio'r orsaf ac yn cyflawni Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd. Rydym hefyd yn edrych ar gamau Cledrau Croesi Caerdydd a fydd yn cael eu cyflawni yn y dyfodol, ac estyniadau i'r dwyrain a'r gogledd-orllewin o Gaerdydd. Bydd y rhain yn ffurfio rhaglen gydlynol i ymestyn y rhwydwaith a chludo mwy o deithwyr a sbarduno twf economaidd.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o Linellau Craidd y Cymoedd i ddatblygu Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru, a Rhwydwaith Gogledd Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y manteision yn cael eu rhannu ar draws y wlad.

Ers ymgymryd â gweithrediadau rheilffyrdd yng Nghymru yn 2018, rydym wedi cynyddu bron sawl gwaith rydym yn stopio mewn gorsafoedd mewn mis – o tua 188,000 i dros 320,000.

Mae'r twf hwn yn deillio o amrywiaeth o welliannau, gan gynnwys:

- Cyflwyno gwasanaethau newydd yn raddol
- Cynyddu'r capasiti ar gyfer teithwyr dros amser
- Gwell amserlenni
- Llwybrau newydd sbon
- Cyflwyno gwasanaethau ar ddydd Sul mewn rhannau o'r rhwydwaith am y tro cyntaf erioed.



## 169 KM

Ers 2020, rydym wedi gosod 169km o geblau trydanol uwchben i bweru trenau newydd ar Llinellau Craidd y Cymoedd.

## £46.1M

**o refeniw teithwyr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025**







Roedd 91.7% o'n trenau Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhedeg ar amser (o fewn tri munud) yn y 4 wythnos hyd at 8 Tachwedd 2025.

Cynyddodd y refeniw o werthiant tocynnau 10.2% wrth gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn dangos bod ein patrwm o gynnydd yn parhau. Gwelsom 17.8% o gynnydd mewn refeniw rhwng 2023/24 a 2024/25. Mae cynnydd mewn refeniw teithwyr yn lleihau'r cymhorthdal cyhoeddus.

# Rhwydwaith T

**Rhwydwaith T yw ein gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth aml-ddull integredig. Mae'n rhwydwaith cydgysylltiedig o drenau, bysiau, cerdded, olwyno a beicio. Bydd yn ymarferol ac yn hawdd ei ddefnyddio gydag un amserlen i gynllunio teithiau ac un tocyn i gael pobl o le i le. Bydd yn agored, yn fforddiadwy ac yn hygyrch, ac yn gwneud mwy o deithiau i weithleoedd ac i leoliadau addysg a hamdden yn bosibl.**

**Lle bynnag y bydd ein cwsmeriaid yn gweld Rhwydwaith T, bydd dulliau teithio dibynadwy a hawdd eu defnyddio ar gael ar eu cyfer. Bydd Rhwydwaith T yn esiampl o deithio dibynadwy yng Nghymru.**



# Adeiladu Metro De Cymru

Mae Metro De Cymru yn trawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio ar draws Caerdydd a'r Cymoedd. Mae'r prosiect hwn, y cyntaf o'i fath yn y DU, wedi trosglwyddo perchnogaeth Llinellau Craidd y Cymoedd o ddwylo Network Rail i Trafnidiaeth Cymru, sy'n golygu bod modd gwneud gwelliannau integredig ar draws traciau, gorsafoedd a threnau er mwyn sicrhau bod y system gyfan yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae'r cam presennol yn mynd rhagddo'n dda, a bydd wedi'i gwblhau erbyn 2027. Mae hyn yn cynnwys trydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn llawn, gwella hygyrchedd yn y rhan fwyaf o orsafoedd, a rhedeg gwasanaethau amlach a hwyrach ar lwybrau allweddol.

Yn 2026, bydd trenau tram Class 398 newydd yn ymuno â'r rhwydwaith, gan gyflwyno gwasanaeth 'cyrraedd a mynd' modern lle mae trenau'n rhedeg mor rheolaidd fel na fydd angen taro golwg ar yr amserlen. Bydd teithwyr hefyd yn elwa o docynnau talu wrth fynd a thocynnau digyswllt, gan wneud y broses deithio'n un symlach a mwy hyblyg.

Drwy wella cysylltedd, bydd y Metro yn cefnogi tai, busnesau a gwasanaethau hanfodol newydd ger cysylltiadau rheilffyrdd, gan leihau'r ddibyniaeth ar gar, creu swyddi, a rhoi bywyd newydd i gymunedau. Mae Metro De Cymru yn enghraifft o gyflawni ac arloesi sy'n torri tir newydd yn y diwydiant rheilffyrdd. Dyna pam rydym eisiau ei ddefnyddio fel model ar gyfer darparu Rhwydwaith Gogledd Cymru a Metro Bae Abertawe.



Dros y degawd diwethaf, mae Trafnidiaeth Cymru wedi profi ei fod yn un o'r cyrff trafnidiaeth mwyaf deinamig a chreadigol yn Ewrop. Drwy brosiectau fel Metro De Cymru, mae wedi gweithio'n ddyfeisgar gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau aml-ddull gwell ac arloesol sydd bellach yn sbarduno ystod ehangach o lawer o ddatblygiadau economaidd, tai ac adfywio.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd wedi gweithio mewn partneriaeth â TrC dros flynyddoedd lawer. Ac rydym ninnau am wneud ein rhan i helpu i wneud rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig nid yn unig yn gryfder diwydiannol i Gymru dros y degawd nesaf, ond hefyd yn fodd o sbarduno adfywiad cenedlaethol a chydlyniant cymunedol.

Ymlaen, Gyda'n Gilydd yw'r cam nesaf ar y daith honno, ac mae'n dangos yr hyn y gall TrC ei wneud ar gynfas llawer mwy gyda'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen. Mae'n bryd rhoi'r adnoddau i TrC gyflawni'r gwaith.

Dr Debra Williams, Cadeirydd
**Cadeirydd y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd**



Rydym yn gontractwr peirianneg sifil lleol, ac yn falch o fod yn rhan o'r tîm cyflawni ar gyfer Metro De Cymru. Mae buddsoddiad Trafnidiaeth Cymru yn y seilwaith rheilffyrdd wedi arwain at fanteision economaidd ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol, hyfforddiant a sgiliau, addysg a datblygu prentisiaid. Rydym yn cefnogi cyhoeddi Ymlaen, Gyda'n Gilydd gan fod buddsoddi mewn seilwaith yn arwain at fanteision economaidd-gymdeithasol cryf i Gymru a'r Gororau.

Tim James, Rheolwr-gyfarwyddwr
**Alun Griffiths**

Yn sgil ein gwaith i drawsnewid seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, gallwn ddarparu gwasanaethau amlach a chyflymach

# Cynlluniau a ariennir gan Adolygiad Gwariant 2025

Gan adeiladu ar lwyddiant Llinellau Craidd y Cymoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru weithio gyda'i bartneriaid – Network Rail Cymru a'r Gororau, yr Adran Drafnidiaeth, Bwrdd Rheilffyrdd Cymru ac awdurdodau lleol – ar nifer o gynlluniau rheilffyrdd pwysig sy'n barod i symud ymlaen i'r cam dylunio ac adeiladu.

Mae hyn yn deillio i raddau helaeth o'r cyllid a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025 (Adolygiad Gwariant 2025). Bydd y cyllid hwn ar lefel y DU, ynghyd â buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ein galluogi i ddechrau ar gam adeiladu'r cynlluniau canlynol, gan fwrw ymlaen â'r gwaith o wella'r economi a gwella bywydau pobl.



Ar ran Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, hoffwn gefnogi cynigion chwyldroadol Trafnidiaeth Cymru i drawsnewid y rheilffordd yng Nghymru a'r Gororau. Mae cysylltiad amlwg rhwng economi gwlad a'r buddsoddiad yn ei seilwaith, ac rwy'n croesawu'r buddsoddiad mawr. Gan ddefnyddio lluosydd 2.83, bydd y buddsoddiad hwn yn cael effaith enfawr ar economi ehangach Cymru. Mae Sefydliad y Peirianwyr Sifil yn falch o weithio ochr yn ochr â TrC yn ystod y cyfnod cyffrous hwn.

Mae llawer o aelodau Sefydliad y Peirianwyr Sifil yn gweithio yn TrC a gyda TrC, a bydd y gwaith hwn yn llythrennol yn gwneud y sector trafnidiaeth yn fwy agored, ac yn gwella mynediad ar draws Cymru a thu hwnt."

Keith Jones, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru
**Sefydliad y Peirianwyr Sifil**

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

# Adolygiad o Wariant: Y Rhaglen Ddatblygu a Chyflawni

Mae'r adolygiad o wariant wedi ein galluogi i fwrw ymlaen â nifer o gynlluniau allweddol. Nid yw pob un o'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu'n llawn, ond mae cyllid wedi cael ei glustnodi ar eu cyfer er mwyn gallu parhau â'r gwaith o'u datblygu. Mae'r tabl isod yn dangos y statws presennol a'r camau allweddol nesaf.

| Y Prosiect | Y Prif Fanteision | Statws |
|---|---|---|
| **Uwchraddio Llinellau Lliniaru ar Brif Linell De Cymru** | Bydd cyflymu'r llinellau lliniaru yn cynyddu nifer y trenau cludo teithwyr a chludo nwyddau y gellir eu rhedeg. Bydd hyn yn caniatáu i wasanaethau rhanbarthol newydd redeg yn galw mewn gorsafoedd llai a gwasanaethau trawsffiniol newydd. | • Gwaith datblygu wedi'i gwblhau<br>• Cyllid wedi'i glustnodi<br>• Y cynllun wrthi'n cael ei ddylunio |
| **Bwrw ymlaen â phum gorsaf newydd ar Brif Linell De Cymru ('Gorsafoedd Burns') a gwasanaethau trawsffiniol newydd** | Bydd gwelliannau i'r Llinell Liniaru yn paratoi'r ffordd ar gyfer adeiladu pum gorsaf newydd sbon yn Nwyrain Caerdydd (Tremorfa), Gorllewin Casnewydd, Somerton, Llan-wern, a Magwyr a Gwndy, gan gwblhau datblygiad gorsaf Parcffordd Caerdydd yn Llaneirwg. Gallai hyn alluogi dros ddwy filiwn o deithiau newydd gan deithwyr ar Brif Linell De Cymru bob blwyddyn erbyn 2036. | • Gwaith datblygu wedi'i gwblhau<br>• Cyllid wedi'i glustnodi<br>• Yn barod i symud ymlaen i ddylunio'r cynllun |
| **Sbarduno Rhwydwaith Gogledd Cymru drwy wasanaethau trawsffiniol a gwell croesfannau rheilffordd** | Mae gwelliannau i groesfannau rheilffordd ar Brif Linell Gogledd Cymru ac ar linell y Gororau yn ein galluogi i gynyddu gwasanaethau trên TrC 50%, gan gynnwys hyd at bedwar trên yr awr ar Brif Linell Gogledd Cymru. Mae'r cynigion am wasanaethau ychwanegol yn cynnwys trenau rhwng Llandudno a Lerpwl. Mae'r gwelliannau yn Padeswood yn hanfodol er mwyn cludo mwy o nwyddau ar y rheilffyrdd a darparu mwy o drenau gyda gwasanaethau amlach i deithwyr ar y llinell rhwng Wrecsam a Lerpwl. | • Gwaith datblygu wedi'i gwblhau<br>• Cyllid wedi'i glustnodi<br>• Yn barod i symud ymlaen i ddylunio'r cynllun |
| **Trawsnewid gorsaf Caerdydd Canolog** | Bydd gwelliannau i'r orsaf drenau brysuraf yng Nghymru – gan greu mynedfa ddeheuol newydd sbon – yn lleihau gorlenwi, yn gwneud yr orsaf yn fwy cysurus i deithwyr, yn gwella diogelwch teithwyr, ac yn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio'r orsaf. Bydd gwell cyfleusterau i deithwyr a'r gweithlu, a bydd cwsmeriaid sydd ag anawsterau symud yn gallu defnyddio'r orsaf yn haws. | • Gwaith datblygu wedi'i gwblhau<br>• Cyllid wedi'i glustnodi<br>• Yn barod i symud ymlaen i cyflwyno'r cynllun<br>• Mae'r prosiect hwn yn 'barod ar gyfer Cledrau Croesi Caerdydd', ac wedi'i ddylunio i helpu i integreiddio Cledrau Croesi Caerdydd yng ngorsaf Caerdydd Canolog |
| **Gwelliannau i Linell Dinas Caerdydd** | Bydd gwelliannau yng Nghyffordd Gorllewin Caerdydd yn ei gwneud yn bosibl i redeg pedwar trên yr awr ar Linell y Ddinas drwy orllewin Caerdydd. Bydd hyn hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd gweithredol i wasanaethau sy'n teithio i'r cymoedd ac oddi yno. | • Wrthi'n cael ei ddatblygu<br>• Cyllid wedi'i glustnodi<br>• Bwrw ymlaen â'r dyluniad ar ôl i'r opsiwn terfynol gael ei gadarnhau |

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn helpu Bwrdd Rheilffyrdd Cymru i gynllunio gwelliannau posibl i'n cledrau, ein signalau a'n gorsafoedd ledled Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Network Rail.

Gyda'n gilydd rydym wedi nodi gwerth £4.4 billion o gynlluniau datblygedig ar hyd a lled Cymru y gellir eu cyflawni dros y 15-20 mlynedd nesaf gyda chyllid digonol, rheolaidd a hirdymor.

Drwy ddiwygio bysiau a chynlluniau Llywodraeth Cymru i fasnachfreinio ledled Cymru, gallwn integreiddio trafnidiaeth, gan wneud Rhwydwaith T yn realiti.

**Model newydd ar gyfer gweithredu rheilffyrdd Cymru**

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r ffordd mae rheilffyrdd Prydain yn cael eu rhedeg a'u gweithredu. Mae hyn yn cynnwys creu – o fewn Great British Railways – Uned Busnes Cymru a'r Gororau a fydd yn atebol i Weinidogion Cymru.

Bydd gan Weinidogion Cymru lais hefyd yng nghyswllt gwasanaethau rheilffyrdd sy'n rhedeg i Gymru ac oddi yma.
Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU i ddarparu gwell rheilffyrdd i Gymru.

**Cenhadaeth**

UN RHWYDWAITH
UN AMSERLEN
UN TOCYN
UN TÎM






"Rydym yn croesawu gweledigaeth Trafnidiaeth Cymru. Gall buddsoddiad strategol mewn trafnidiaeth gyhoeddus integredig ddatgloi cyfleoedd economaidd, sbarduno twf rhanbarthol, a chysylltu ein cymunedau'n well. Drwy gryfhau cysylltedd, rydym yn creu'r amodau priodol i ddenu busnes newydd, annog buddsoddiad, a sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu a ffynnu."

Russell Greenslade, Cyfarwyddwr CBI Cymru
**CBI Cymru**



Trên 197 yn cyrraedd Deganwy ar y ffordd i Landudno

Bydd y prosiectau arfaethedig hyn yn cyfrannu at fuddsoddiad trafnidiaeth ehangach ym maes trenau, bysiau a theithio llesol i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru.




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000830342

# Cynlluniau â Gwaith Datblygu Sefydledig

Y rhestr o gynlluniau yn yr adran hon sydd wedi cael eu datblygu fwyaf hyd yma. Mae'r rhain yn barod i symud ymlaen, sy'n eu gwneud yn ymgeiswyr delfrydol i dderbyn buddsoddiad.

1. Gwella Capasiti ac Amlder y Gwasanaeth ar Linell y Ddinas (Gorllewin Caerdydd)
2. Gorsafoedd Newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd (Cam 3)
3. Trydaneiddio Caerdydd i Cogan
4. Gorsafoedd Newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd (Cam 1)
5. Ymestyn Cledrau Croesi Caerdydd i Alexandra Head
6. Ymestyn Cledrau Croesi Caerdydd i Stryd Pen y Lanfa
7. Ymestyn Cledrau Croesi Caerdydd i Heol Casnewydd
8. Trydaneiddio'r Brif Linell i Gaergybi
9. Gwasanaethau Trenau Cyflym ar y Brif Linell
10. Trydaneiddio'r Brif Linell i Landudno
11. Gwasanaethau sy'n Stopio ar y Brif Linell
12. Gwasanaethau Amlach rhwng Wrecsam a Lerpwl
13. Gwasanaethau Uniongyrchol rhwng Lerpwl a Wrecsam ar Linell Wrecsam-Lerpwl
14. Gorsafoedd Glannau Dyfrdwy a Chyfnewidfa Shotton
15. Gwaith Gwella Padeswood ar Linell Wrecsam-Lerpwl
16. Gwella Capasiti yng Nghaer
17. Gwasanaethau Uniongyrchol rhwng Caerdydd a Lerpwl
18. Capasiti a Chryfder y Gwasanaeth ar Linell y Cambrian
19. Gwella Capasiti a Chyflymder Llinell y Gororau
20. Gwasanaethau Lleol Caerdydd i'r Fenni a Chaer i Wrecsam
21. Gwasanaeth Ychwanegol rhwng Caerdydd a Cheltenham
22. Gwasanaethau rhwng Gorllewin Cymru a Bryste
23. Gwella Capasiti'r Brif Linell
24. Gorsafoedd a Gwasanaethau 'Burns' y Brif Linell
25. Cyflymu'r Brif Linell
26. Llinell Sbardun Abertyleri o Linell Glyn Ebwy
27. Gorsafoedd Newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd (Cam 2)
28. Estyniad o Hirwaun i Lofa'r Tŵr
29. Trydaneiddio o Gaerdydd i Ben-y-bont ar Ogwr
30. Estyniad i Hirwaun
31. Gwasanaeth Amlach ar Linell Coryton
32. Gwasanaethau Maesteg i Abertyleri
33. Gwasanaethau Maesteg i Gaerdydd
34. Gwasanaeth Gwennol Pen-y-bont ar Ogwr i Faesteg
35. Trydaneiddio o Ben-y-bont ar Ogwr i Abertawe
36. Trydaneiddio Cwrt-sart i Bontarddulais
37. Abertawe i Bontarddulais a Rhydaman drwy Gastell-nedd, Gwasanaethau Metro a Gorsafoedd Newydd
38. Gorsafoedd ar Brif Linell Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru
39. Trydaneiddio o Abertawe i Ben-bre a Phorth Tywyn
40. Gwasanaeth Metro Abertawe i Ben-bre a Phorth Tywyn a Gorsaf y Cocyd
41. Gorsaf Sanclêr
42. Gwasanaeth Amlach ar gyfer Doc Penfro
43. Gwasanaeth Amlach ar gyfer Aberdaugleddau

# Rhwydwaith Gogledd Cymru

Trenau amlach, cysylltiadau rheilffyrdd newydd, llwybrau bysiau newydd, gorsafoedd rheilffordd newydd sbon sy'n fwy hygyrch, a thocynnau talu wrth fynd sy'n haws eu defnyddio.

Rhwydwaith Gogledd Cymru
Network North Wales

Rhwydwaith Gogledd Cymru yw gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth cydgysylltiedig ar draws y rhanbarth. Ei nod yw gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng cymunedau a lleoliadau economaidd allweddol yng Ngogledd Cymru a Llundain, Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Lloegr. Bydd hyn yn golygu trenau amlach, cysylltiadau rheilffyrdd newydd, llwybrau bysiau newydd, gorsafoedd rheilffordd newydd sbon sy'n fwy hygyrch, a thocynnau talu wrth fynd sy'n haws eu defnyddio.

Bydd yn cysylltu pobl a chymunedau yng Ngogledd Cymru a'r rhanbarthau cyfagos â swyddi, cyfleoedd, gweithgareddau hamdden a gwell ansawdd bywyd. Bydd yn helpu busnesau i ffynnu, gan drawsnewid rhagolygon economaidd y rhanbarth.

Mae Rhwydwaith Gogledd Cymru yn rhan o Rwydwaith T, sef rhwydwaith aml-ddull o drenau, bysiau, cerdded, olwyno a beicio rydym yn ei ddatblygu ledled Cymru.



Argraff arlunydd o Borth Wrecsam

"Nid dim ond casgliad o brosiectau yw Rhwydwaith Gogledd Cymru; mae'n brawf o'n hyder ym mhotensial y rhanbarth hwn.

Mae'n ddatganiad na fydd Gogledd Cymru yn ôl-ystyriaeth mwyach, ac y bydd yn arweinydd ym maes trafnidiaeth gynaliadwy ac integredig.

Wrth i ni symud ymlaen, gadewch i ni gofio nad dim ond llinellau ar fap, amserlenni ar sgrin, neu ddur a choncrid sy'n bwysig yn hyn o beth.

Mae'n ymwneud â bywydau'r bobl rydym yn eu gwasanaethu, y busnesau rydym yn eu cefnogi, a'r dyfodol rydym yn ei greu."

Ken Skates MS
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**





Trên 197 yng Ngorsaf Wrecsam Cyffredinol

Gan weithio gyda'r awdurdodau lleol ar draws Dinas-Ranbarth Lerpwl, bydd y prosiect trawsffiniol hwn yn defnyddio trenau batri trydan arloesol i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol sy'n fwy gwyrdd, gan leihau'r angen i newid trenau.

Rhwydwaith Gogledd Cymru
Network North Wales

# Mae'r Metro yn rhan ganolog o Rwydwaith Gogledd Cymru

Rydym wrthi'n gosod y sylfeini i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau, ac i wella'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio ar draws Gogledd Cymru gyda gwell cysylltiadau bws, trên, beicio a cherdded. Bydd yn helpu i leihau ynysu gwledig ac yn creu cyfleoedd cyffrous o ran swyddi, busnes a gweithgareddau hamdden ar draws Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Bydd hefyd yn rhan hollbwysig o'r gwaith o ddatblygu economi ehangach yr ardal yn ogystal â dyfodol mwy diogel ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Ngogledd Cymru.

Bydd Metro Gogledd Cymru yn darparu gwasanaethau uniongyrchol rhwng canol dinas Lerpwl, Cilgwri a Wrecsam drwy'r llinell rhwng Wrecsam a Lerpwl, gan gynnwys gwell cysylltiadau â Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, un o'r mwyaf yn Ewrop. Gan weithio gyda'r awdurdodau lleol ar draws Dinas-Ranbarth Lerpwl, bydd y prosiect trawsffiniol hwn yn defnyddio trenau batri trydan arloesol i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol sy'n fwy gwyrdd, gan leihau'r angen i newid trenau. Drwy wella'r cysylltiadau rhwng Gogledd-ddwyrain Cymru a Glannau Mersi, bydd y cynigion hyn yn gwella mynediad at gyfleoedd gwaith, yn rhoi hwb i gynhyrchiant ac yn helpu i gael mwy o gartrefi, swyddi a gwasanaethau.

Mae gorsaf Shotton yn gyfnewidfa bwysig gan ei bod yn gwasanaethu dwy reilffordd mewn canolfan economaidd leol. Bydd gwelliannau i'r orsaf yn galluogi teithwyr i newid yn rhwydd rhwng Prif Linell Gogledd Cymru a'r gwasanaeth rhwng Wrecsam a Lerpwl.

## Gwaith Gwella Padeswood ar Linell Wrecsam-Lerpwl

Mae gwaith sment Padeswood yn safle o fuddsoddiad mawr mewn cynhyrchu sment sy'n fwy ecogyfeillgar. Bydd gwell mynediad at waith sment Padeswood gyda gwell cyfleusterau yn galluogi mwy o drenau cludo nwyddau a threnau cludo teithwyr i ddefnyddio'r llinell. Bydd yn ei gwneud yn bosibl i gynnig dau wasanaeth i deithwyr bob awr, a bydd mwy o nwyddau ar y safle yn gallu cael eu cludo gan drenau cludo nwyddau yn y dyfodol.

**Wedi'i gefnogi gydag arian o Adolygiad Gwariant 2025**

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

## Gwasanaethau Uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl

Bydd gwelliannau i'r cledrau a'r signalau yn ein galluogi i ddarparu dau wasanaeth uniongyrchol yr awr o Wrecsam i Lerpwl, ar drenau batri trydan.

Amcan o'r Gost: **Dros £150m**

## Cyfnewidfa Shotton a Gorsaf Glannau Dyfrdwy

Bydd Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn cael ei wasanaethu gan orsaf newydd, a gwell cysylltiadau yn y filltir olaf, ar y Llinell rhwng Wrecsam a Lerpwl. Mae gorsaf Shotton yn gyfnewidfa bwysig gan ei bod yn gwasanaethu dwy reilffordd mewn canolfan economaidd leol. Bydd pont reilffordd newydd yn hwyluso cysylltiadau â gwasanaethau Prif Linell Gogledd Cymru a rhwng Wrecsam a Lerpwl.


Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

## Gwasanaethau Amlach rhwng Wrecsam a Lerpwls

Bydd buddsoddiadau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu trenau amlach rhwng Wrecsam a Lerpwl yn golygu bod pedwar trên yr awr ar gael i deithwyr.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**




Mae Cyngor Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint yn creu parth buddsoddi i ddatblygu'r sector gweithgynhyrchu uwch, gan gynnwys technolegau a deunyddiau arloesol. Mae'r cyswllt rheilffordd i Lerpwl yn cysylltu Wrecsam a Sir y Fflint â Pharth Buddsoddi Lerpwl a'i Borthladd Rhydd.

Byddai gwelliannau ar y llinell yn golygu y gallai llawer mwy o bobl ddefnyddio'r rheilffordd i deithio ar gyfer eu gwaith i gyrchfannau ar hyd y llwybr cyfan. Bydd hefyd yn helpu i gynyddu nifer y trenau cludo nwyddau, a fydd yn golygu bod mwy o nwyddau yn gallu cael eu cludo ar y trên.






# Prif Linell Gogledd Cymru

Mae Prif Linell Gogledd Cymru yn rhedeg ar hyd yr arfordir, gan gysylltu Gogledd Cymru, Llundain, Gogledd-orllewin Lloegr a chysylltiadau pellach â Gweriniaeth Iwerddon drwy Borthladd Caergybi.

Ein cynlluniau yw darparu mwy o wasanaethau i deithwyr, a gwasanaethau amlach, gan ganolbwyntio i ddechrau ar wasanaethau rhwng Caer a Chyffordd Llandudno, ac ymlaen i Gaergybi. Bydd y rhain yn cyd-fynd â rhwydweithiau trafnidiaeth lleol.

Bydd gwelliannau i Brif Linell Gogledd Cymru yn ein galluogi i redeg pedwar trên bob awr i Gaer a fydd yn stopio ar y ffordd, ac i gynnig gwasanaethau amlach ar y llinellau o Gaer i Wrecsam, Lerpwl a Warrington.

Bydd hyn yn helpu ein cynlluniau i greu Metro Gogledd Cymru gyda gwasanaethau trên 'cyrraedd a mynd' ar Ogledd Cymru, sy'n rhedeg yn ddigon aml fel nad oes angen i deithwyr ddibynnu ar amserlenni.

Bydd y gwasanaethau gwell hyn i Lerpwl, Manceinion a Crewe yn creu gwell cysylltiadau â gwasanaethau'r dyfodol hefo HS2 a Northern Powerhouse Rail yn Warrington a Crewe.

### Gwelliannau yng Ngorsaf Caer er mwyn gallu darparu trenau amlach

Yng ngorsaf Caer, mae tagfeydd o ran capasiti er mwyn gallu darparu mwy o wasanaethau ar Brif Lein Gogledd Cymru a gwasanaethau rhwng y Gogledd a'r De ar Lein y Gororau. Er mwyn gwneud mwy o le ar gyfer y gwasanaethau newydd hyn rhwng Caer a Wrecsam, Caergybi, Crewe a Lerpwl, mae angen gwella'r capasiti sydd ar gael. Y gwelliannau a gynigir yw adeiladu platfform newydd, croesfannau, gwell signalau a mwy o gapasiti ar y cyffyrdd.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**



## Gwasanaethau ar Brif Linell Gogledd Cymru sy'n stopio ar y ffordd

I allu darparu mwy o wasanaethau ar y brif linell, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn i'r rheilffordd allu rhedeg trenau amlach, yn ogystal â gwella croesfannau rheilffordd er diogelwch y cyhoedd. Byddai'r gwaith hwn yn ei gwneud yn bosibl i gynnig gwasanaeth ychwanegol bob awr, gyda'r trên yn stopio'n rheolaidd ar hyd y llwybr rhwng Caer a Chyffordd Llandudno. Byddai hefyd yn golygu bod modd darparu gwasanaethau cyflym yn amlach ar y Brif Linell. Bydd y gwasanaethau newydd hyn yn gwella'r cysylltiadau â Gogledd-orllewin Lloegr i Lerpwl a Manceinion, eu meysydd awyr a Warrington.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

## Trydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru

Bydd trydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru, gan gynnwys cysylltiadau â Phrif Linell Arfordir Gorllewin Lloegr yn Crewe a Warrington, yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau trên cyflymach, tawelach a mwy gwyrdd. Byddai'r cam cyntaf yn golygu trydaneiddio o Gaer a Crewe hyd at Gyffordd Llandudno, ac yna'r ail gam ymlaen i Gaergybi. Byddai hyn yn cynnwys buddsoddiad gan TrC mewn cerbydau trydan neu gerbydau dau-fodd, ac yn ei gwneud yn bosibl i unedau dau-fodd presennol Avanti West Coast ddefnyddio unedau tyniant trydan.

Amcan o'r Gost: **Over £150m**

## Gwasanaeth Trenau Cyflym ar y Brif Linell

Byddai gwasanaeth cyflym bob awr rhwng Llundain, Caer, Bangor a Chaergybi – sy'n stopio'n llai aml mewn gorsafoedd – yn darparu amseroedd teithio cyflym rhwng Gogledd Cymru a Llundain.





© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000830342




# Canolbarth Cymru, Llinell y Gororau a ffiniau Lloegr

Mae Llinell y Gororau yn darparu cysylltiadau allweddol sy'n cysylltu De Cymru â'r Gororau, Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gan basio drwy drefi fel y Fenni a Henffordd. Mae hefyd yn darparu cysylltiadau allweddol â Lein Chalon Cymru a Phrif Linell y Cambrian yn Amwythig sy'n cysylltu Aberystwyth a chanolbarth Cymru â Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Bydd ein cynlluniau ar gyfer Llinell y Gororau yn cynnwys gwahanu gwasanaethau trên cyflym sydd ond yn stopio mewn rhai gorsafoedd oddi wrth wasanaethau sy'n stopio'n aml, er mwyn diwallu'n well anghenion teithwyr lleol a'r rheini sy'n teithio ymhellach. Bydd hyn yn gwella cysylltiadau teithio ar draws y rhanbarth, ac yn golygu bod mwy o swyddi a gwasanaethau o fewn cyrraedd. Bydd gwelliannau i gledrau, signalau a gorsafoedd yn galluogi mwy o drenau i redeg yn amlach, yn fwy dibynadwy ac ar gyflymder uwch, gan leihau amseroedd teithio rhwng Caerdydd a Manceinion.

### Gwasanaethau Uniongyrchol rhwng Caerdydd a Lerpwl

Bydd gwasanaethau uniongyrchol yn cael eu darparu drwy wella signalau er mwyn cynyddu nifer y trenau sy'n gallu pasio'n ddiogel ac yn ddibynadwy drwy Amwythig a Wrecsam.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

### Gwasanaethau Lleol Caerdydd i'r Fenni a Chaer i Wrecsam

Mae cyfleuster yn y Fenni sy'n galluogi trenau i droi rownd yn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaethau lleol amlach, yn ogystal â galluogi gwasanaethau pellter hirach i alw mewn llai o orsafoedd. Bydd gwasanaethau lleol rhwng Caer, Wrecsam a Crewe yn gwella amlder y gwasanaeth a'r cysylltiadau prif linell ar gyfer teithiau hir.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

### Trenau mwy dibynadwy ar Linell y Cambrian


Drwy fuddsoddi mewn cledrau a signalau bydd yn haws i ni atal rhywbeth rhag tarfu ar y gwasanaeth ar hyd yr adrannau un trac yng Nghanolbarth Cymru, ac i adfer y gwasanaeth os bydd hynny'n digwydd. Mae cyfleoedd tymor hwy yn cynnwys adeiladu mwy o orsafoedd ar hyd y llinell.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

### Gwella Capasiti a Chyflymder Llinell y Gororau

Gwelliannau i'w gwneud yn bosibl i ddarparu trenau amlach a chyflymach sy'n fwy dibynadwy.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000830342

# Prif Linell De Cymru

Mae Prif Linell De Cymru yn cludo teithwyr a nwyddau i Sir Benfro ac oddi yno, drwy Abertawe, Caerdydd, Casnewydd ac ymlaen i Loegr. Mae'n helpu i leihau'r ddibyniaeth ar geir, ac i symud nifer fawr o bobl rhwng De-ddwyrain Cymru a De-orllewin a De-ddwyrain Lloegr.

Mae cyflymder y llinell rhwng Casnewydd a Chaerdydd yn gymharol isel ar hyn o bryd wrth gymharu ag enghreifftiau o grwpiau eraill o ddinasoedd mawr. Byddai buddsoddi mewn gwelliannau i'r cledrau, i'r signalau, i'r gwasanaethau a'r gorsafoedd yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd economaidd a ddaw yn sgil gwell cysylltiadau rhwng De Cymru a De-orllewin Lloegr.

## Gorsafoedd a Gwasanaethau'r Brif Linell (Gorsafoedd 'Burns')

Rydym wedi paratoi cynlluniau ar gyfer adeiladu pum gorsaf newydd rhwng gorsaf Caerdydd Canolog a Chyffordd Twnnel Hafren, gan gefnogi argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ('Comisiwn Burns'). Byddai'r gorsafoedd, yn Nwyrain Caerdydd (Tremorfa), Gorllewin Casnewydd, Somerton, Llan-wern, a Magwyr a Gwndy yn cael o leiaf ddau wasanaeth – a hyd at bedwar – yr awr rhwng Caerdydd Canolog a Bryste Temple Meads, a Chaerdydd Canolog a Cheltenham Spa. Byddai gwasanaethau hefyd yn galw heibio gorsaf arfaethedig Parcffordd Caerdydd ger Llaneirwg.

**Wedi'i gefnogi gydag arian o Adolygiad Gwariant 2025**

Amcan o'r Gost: **Dros £150m**





## Gwasanaethau uniongyrchol rhwng Gorllewin Cymru a Bryste

Byddai'r cysylltiadau rhwng Gorllewin Cymru a Bryste Temple Meads yn gwella drwy ymestyn y gwasanaethau presennol sy'n terfynu yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

## Trydaneiddio o Gaerdydd i Abertawe

Bydd trydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe yn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio trenau trydan mwy dibynadwy sy'n well i'r amgylchedd. Bydd perfformiad gwell hefyd yn paratoi'r ffordd i leihau amseroedd teithio ar y llinell hon.

Amcan o'r Gost: **Dros £150m**




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000830342

## Cyflymu Prif Linell De Cymru

Ar wahân i uwchraddio'r llinell lliniaru, bydd gwelliannau i'r brif linell yn caniatáu cyflymderau uwch rhwng Caerdydd a Thwnnel Hafren. Bydd hyn yn golygu bod modd manteisio i'r eithaf ar drenau modern a lleihau amseroedd teithio.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**



## Gwasanaeth Ychwanegol rhwng Caerdydd a Cheltenham

Byddwn yn cyflwyno gwasanaeth ychwanegol bob awr i Cheltenham Spa o Gaerdydd fel cam diweddarach y cynigion ar gyfer gwasanaeth a gorsafoedd ar y brif linell.

## Gwella Capasiti Prif Linell De Cymru

Byddwn yn mynd i'r afael â chyfyngiadau presennol y seilwaith, yn enwedig yng Nghyffordd Twnnel Hafren, Casnewydd, Caerdydd a Chaerfyrddin.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

**Byddai buddsoddi mewn gwelliannau i'r cledrau, y signalau a'r gorsafoedd yn cynyddu'r cyfleoedd economaidd a ddaw yn sgil gwell cysylltiadau rhwng De Cymru a De-orllewin Lloegr.**

# Camau Metro De Cymru yn y dyfodol

Mae'r gwaith ar Linellau Craidd y Cymoedd yn gosod y sylfaen ar gyfer gweledigaeth sydd hyn yn oed yn fwy cyffrous: ehangu cyrhaeddiad y Metro ar draws Caerdydd a'r cymoedd. Bydd camau yn y dyfodol yn adeiladu ar lwyddiant trydaneiddio a thechnoleg trenau tram i ddarparu rhwydwaith sy'n wirioneddol integredig.

Mae Cledrau Croesi Caerdydd – fel y'i rhoddwyd gerbron yn y Papur Gwyn ar Drafnidiaeth a gyhoeddwyd gan Gyngor Caerdydd – yn gynllun uchelgeisiol ar gyfer llinell metro newydd, 18 milltir o hyd, sy'n ymestyn o Bont-y-clun a Beddau i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd hyd at Dremorfa a Llaneirwg yn y dwyrain, gan gysylltu cymunedau sydd eisoes yn bodoli a datgelu ardaloedd datblygu newydd.

Ar hyn o bryd, dim ond y dramffordd rhwng gorsaf Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd sydd wedi cael ei hariannu, ond byddai camau yn y dyfodol yn ymestyn i'r de a'r dwyrain heibio Stryd Pen y Lanfa a Dociau Caerdydd, gan gysylltu â'r orsaf y bwriedir ei hadeiladu yn Nwyrain Caerdydd (Tremorfa) ar Brif Linell De Cymru. Byddai cwblhau'r estyniadau hyn, ochr yn ochr â chynlluniau eraill fel Coridor y Gogledd-orllewin, yn creu rhwydwaith metro modern ac integredig sy'n gwasanaethu Caerdydd a'r ardaloedd cyfagos, gan gynnwys Cwm Ebwy a Chwm Llynfi.

Bydd y cynlluniau hyn yn manteisio'n llawn ar dechnoleg trenau tram, gan gynnig hyblygrwydd i ymestyn y rhwydwaith a sicrhau bod y Metro yn parhau i esblygu er mwyn diwallu anghenion cymunedau sy'n datblygu.

**Gwasanaethau Amlach ar Linell y Ddinas**
Bydd gwelliannau yng Nghyffordd Gorllewin Caerdydd yn golygu bod modd darparu pedwar trên yr awr ar Linell Dinas Caerdydd – dau drên yr awr sydd ar hyn o bryd.

**Wedi'i gefnogi gydag arian o Adolygiad Gwariant 2025**

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Gwasanaethau Amlach ar Linell Coryton**
Bydd gwelliannau i reilffyrdd a signalau, gan gynnwys dolen basio, yn ein galluogi i redeg pedwar trên yr awr rhwng gorsaf Caerdydd Canolog a Coryton.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Estyniad Aberdâr i Hirwaun**
Cysylltu pobl, busnesau a chymunedau yn Hirwaun a Llwydcoed.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Gwasanaeth Gwennol Pen-y-bont ar Ogwr i Faesteg**
Byddai gwasanaeth gwennol i Ben-y-bont ar Ogwr yn cynyddu amlder y gwasanaeth i ddau drên yr awr.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Llinell Sbardun Abertyleri o Linell Glyn Ebwy**
Bydd Cwm Ebwy Fawr yn cael ei gynnwys ar y rhwydwaith rheilffyrdd gyda gwasanaethau uniongyrchol bob awr i Gaerdydd.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

**Gwasanaethau Maesteg i Gaerdydd**
Gyda rhagor o welliannau, bydd gwasanaeth Gwennol Maesteg yn cael ei ymestyn i ddarparu dau drên yr awr i Gaerdydd ac oddi yno.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**


**Ymestyn Cledrau Croesi Caerdydd i Stryd Pen y Lanfa**
Bydd hyn yn golygu bod y gwasanaethau i Fae Caerdydd yn gallu cael eu hymestyn i Stryd Pen y Lanfa.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

**£700m**

**amcangyfrif o'r cynnydd mewn allbwn sy'n gysylltiedig ag effeithiau economaidd ehangach dros 60 mlynedd**




**Pum gorsaf newydd ar gyfer Caerdydd a'r Cymoedd**
Bydd cynigion datblygu ar gyfer y rhwydwaith metro yn cynnwys adeiladu pum gorsaf newydd. Mae hyn yn cynnwys gorsafoedd ym Mharc y Rhath a Gabalfa yng Nghaerdydd, a fydd hefyd yn mynd â theithwyr yn agosach at Ysbyty Athrofaol Cymru. Bydd hyn yn gwella mynediad lleol at gyfleoedd a ddaw yn sgil cyfnewidfa'r Metro, gan galluogi pobl i ddefnyddio rhwydweithiau bysiau, beicio, cerdded ac olwyno. Bydd hefyd yn creu cyfleoedd teithio newydd.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

**Trydaneiddio o Gaerdydd i Cogan**
Drwy drydaneiddio'r llinell rhwng Caerdydd a Cogan yn rhannol, bydd modd defnyddio trenau tram ar y llinell i Benarth. Bydd hynny, ynghyd â thrydaneiddio Prif Linell De Cymru, yn golygu bod modd gweithredu unedau batri-trydan yn llawn ar wasanaethau Bro Morgannwg.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Estyniad o Hirwaun i Lofa'r Tŵr**
Bydd estyniad pellach o Hirwaun yn dod â safle Strategol Glofa'r Tŵr ar y Metro.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Estyniadau Pellach i Gledrau Croesi Caerdydd**
Mae'r estyniadau arfaethedig yn cynnwys cysylltu Stryd Pen y Lanfa â'r orsaf newydd arfaethedig yn Nwyrain Caerdydd (Tremorfa) ar y brif linell, a Llinell Sbardun i Alexandra Head, gan gysylltu safleoedd cymunedau a chyflogaeth newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli â'r rhwydwaith Metro.

Amcan o'r Gost: **Dros £150m**


# Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

Bydd Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn trawsnewid y rhwydwaith trafnidiaeth yn y rhanbarth. Bydd ein prosiectau'n cydlynu opsiynau trafnidiaeth y rhanbarth, gan gynnwys rheilffyrdd, bysiau, beicio a cherdded. Bydd yn creu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cydblethu i helpu'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn y rhanbarth, yn ogystal ag ymwelwyr. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi hwb i'r economi leol drwy ddarparu mynediad gwell at gyfleoedd o ran swyddi, busnes a gweithgareddau hamdden.

Mae'n golygu adeiladu hyd at saith gorsaf drenau newydd i wasanaethu ardal Bae Abertawe ynghyd â dau wasanaeth Metro lleol rheolaidd newydd, sy'n rhedeg dau drên yr awr i ddechrau ond gyda'r potensial i gynyddu i bedwar trên yr awr.

Byddai buddsoddi mewn trydaneiddio yn y dyfodol yn rhoi hwb i fanteision amgylcheddol y llwybrau hyn, ac yn creu cysylltiad yn y dyfodol â'r brif linell rhwng Caerdydd ac Abertawe a fydd wedi'i thrydaneiddio.

Yng Ngorllewin Cymru, byddai'r cynlluniau'n golygu adeiladu gorsaf newydd yn Sanclêr a gwasanaeth amlach ar y brif linell i Aberdaugleddau a'i changhennau i Ddoc Penfro ac Abergwaun.



**Gwasanaeth Metro Abertawe i Ben-bre a Phorth Tywyn a Gorsaf y Cocyd**
Bydd cyfleuster troi'n ôl yn golygu bod modd darparu gwasanaeth bob hanner awr, sy'n stopio ar y ffordd, rhwng Abertawe, Tregŵyr, Llanelli a Phen-bre a Phorth Tywyn. Byddai gorsaf newydd yn cael ei hadeiladu yn y Cocyd.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Gwasanaeth Amlach ar gyfer Doc Penfro**
Gwasanaeth bob awr i Ddoc Penfro, a fydd hefyd yn cynnwys gwella croesfannau rheilffordd i wella diogelwch i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Abertawe i Bontarddulais a Rhydaman drwy Gastell-nedd, Gwasanaethau Metro a Gorsafoedd Newydd**
Bydd trenau – sy'n stopio ar y ffordd – yn galw heibio gorsafoedd newydd ar Linell Ardal Abertawe bob hanner awr, wedi'i gefnogi gan drac newydd sy'n cysylltu Castell-nedd â Llinell Ardal Abertawe, a'r posibilrwydd o wasanaeth bob awr yn cael ei ymestyn i Rydaman.

Amcan o'r Gost: **Dros £150m**

**Gorsafoedd Prif Linell Metro Bae Abertawe**
Bydd y gorsafoedd newydd a fydd yn cael eu hadeiladu yng Nglandŵr a Winch Wen rhwng Castell-nedd ac Abertawe yn cael eu gwasanaethu gan drenau ar y brif linell sy'n stopio ar y ffordd, a gwasanaethau Metro arfaethedig.

Amcan o'r Gost: **£50m - £150m**

**Gorsaf newydd Sanclêr**
Bydd gorsaf newydd rhwng Caerfyrddin a Hendy-gwyn ar Daf yn gwasanaethu cymuned Sanclêr.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Gwasanaeth Amlach ar gyfer Aberdaugleddau**
Gwasanaeth bob awr i Aberdaugleddau, a fydd hefyd yn cynnwys ymyriadau ar gyfer croesfannau rheilffordd i wella diogelwch i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal.

Amcan o'r Gost: **Llai na £50m**

**Trydaneiddio yn Ardal Bae Abertawe**
Byddwn yn datgarboneiddio'r rheilffordd ar draws ardal Bae Abertawe drwy gynllun trydaneiddio cam wrth gam, gan ddechrau gydag Abertawe i Ben-bre a Phorth Tywyn, a gorffen gyda Chwrt-sart i Bontarddulais.

Amcan o'r Gost: **Dros £150m**

# £330 miliwn

**amcangyfrif o'r cynnydd mewn allbwn sy'n gysylltiedig ag effeithiau economaidd ehangach dros 60 mlynedd.**

# Datblygu Rheilffordd Cymru a'r Gororau: Senario cyllido – dros £10 biliwn

Mae cynlluniau ar gyfer Cymru a'r Gororau wrthi'n cael eu datblygu, a gallent gael eu cwblhau yn ystod y 15-20 mlynedd nesaf. Y tu hwnt i'r cynlluniau hyn, mae potensial i fynd ymhellach ac yn gyflymach. Gyda buddsoddiad sylweddol, o bosibl hyd at £10 biliwn, gallem wireddu ein huchelgais ehangach ar gyfer rheilffordd Cymru.

Mae angen datblygiad mwy manwl ar y cynlluniau yn yr adran hon i archwilio sut y gellir eu cyflawni orau ac a fyddent yn darparu gwerth da am arian.

Bydd yr astudiaethau i ddatblygu'r cynigion hyn hefyd yn galw am ragor o gyllid datblygu cyn y cyllid ar gyfer y gwaith o'u hadeiladu.

### Cysylltiadau o'r Gogledd i'r De yng Ngorllewin Cymru

Mae diffyg llwybr trafnidiaeth gyhoeddus strategol rhwng y gogledd a'r de yng Ngorllewin Cymru yn fwlch allweddol yn rhwydwaith rheilffyrdd Cymru, un sydd wedi bodoli ers cau'r 85 milltir o lwybrau rheilffordd a oedd unwaith yn cysylltu Caerfyrddin ag Aberystwyth a Bangor ag Afon Wen. I geisio dechrau mynd i'r afael â'r bwlch mewn gwasanaethau rheilffyrdd, mae TrC wedi datblygu cynlluniau manwl ar gyfer cyswllt bws newydd rhwng y Gogledd a'r De sydd wedi'i gydlynu'n llwyr â gwasanaethau a gorsafoedd rheilffyrdd. Byddai hyn yn lleihau hyd y daith bresennol ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerfyrddin a Bangor i lai na phum awr. Byddai hefyd yn dangos y ddadl dros fuddsoddi ymhellach mewn gorsafoedd a chledrau ar y coridor hwn, a allai baratoi'r ffordd ar gyfer adfer y cysylltiadau rheilffyrdd hyn.

Yn y tymor hwy, y llwybr rheilffordd rhwng Bangor – Caernarfon – Afon Wen, sef y byrraf a'r mwyaf poblog o'r ddau, sydd â'r ddadl gryfaf dros gael ei ailgyflwyno, gan ddefnyddio rheilffordd ysgafn arloesol o bosibl i ddarparu cysylltedd newydd am gost is mewn modd sy'n tarfu llai.

Amcan o'r gost: **Dros £1bn**

### Metro De Cymru ('Coridor y Gogledd-orllewin')

Fel y nodir ym Mhapur Gwyn Cyngor Caerdydd, mae Cledrau Croesi Caerdydd yn gynllun uchelgeisiol ar gyfer llinell metro newydd sy'n 18 milltir o hyd sy'n dod â chysylltiadau rheilffyrdd i gymunedau sydd eisoes yn bodoli ac ardaloedd datblygu newydd. Mae'r cam cyntaf ymrwymedig i Fae Caerdydd, a'r camau diweddarach i Ddwyrain Caerdydd (Tremorfa), eisoes wedi cael eu disgrifio.


Byddai cwblhau'r cynnig am gynllun mwy uchelgeisiol 'coridor y Gogledd-orllewin' yn ymestyn y llinell fesul cam o Gaerdydd i Greigiau, Tonysguboriau a Phont-y-clun. Cledrau wedi'u hadeiladu o'r newydd ar hen linellau reilffyrdd segur fyddai'r rhain yn bennaf, gyda llinell sbardun i'r Beddau. Byddai hyn yn defnyddio technoleg trên tram ysgafn i wasanaethu cymysgedd o gymdogaethau sydd eisoes yn bodoli ac ardaloedd datblygu newydd pwysig, gan gynnwys y rheini ym Mhlasdŵr ac yng Nghapel Llanilltern yng Nghaerdydd. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys 'cysylltiad gorsaf' newydd o blatfformau arfaethedig Cledrau Croesi Caerdydd yng ngorsaf Caerdydd Canolog i Linell y Barri a Llinell y Ddinas yng Nghaerdydd, a allai fod yn gam cychwynnol.

Amcan o'r gost: **Dros £1bn**

### Estyniad Metro Bae Abertawe (Abertawe i Gastell-nedd a Thonna)

Byddai cael estyniad o 10 milltir yn y dyfodol ar Fetro Bae Abertawe, o Abertawe i Gastell-nedd a Thonna, gan ddefnyddio rheilffordd ysgafn ar y llinellau presennol ac ar y stryd yn cysylltu gorsaf Stryd Fawr Abertawe, canol y ddinas a'r glannau, a champws prifysgol Abertawe gyda Chastell-nedd, Tonna ac Aberdulais.

Amcan o'r gost: **Dros £1bn**


Mae adeiladu'r platfform newydd ym Mae Caerdydd, ochr yn ochr â Rhodfa Lloyd George, yn allweddol ar gyfer dyfodol Metro De Cymru

## Gorsafoedd newydd

Rydym yn cydnabod rôl gorsafoedd newydd yn y broses o wella mynediad at y rheilffyrdd, a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hyn o ran cysylltedd. Rhaid cydbwyso'r cyfleoedd hyn yn erbyn yr effaith ar hyd teithiau presennol teithwyr a chostau gweithredu trenau. Gellid rhagweld 10 gorsaf newydd fel rhan o gyfleoedd tymor hwy yng nghanolbarth Cymru, Gogledd Cymru rhwng Caer a Gobowen ac ar Brif Linell Gogledd Cymru ac yn Ne Cymru rhwng Caerdydd ac Abertawe, ac ar rannau o Fetro De Cymru. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys gorsafoedd newydd, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

**Caerllion** – byddai'n golygu bod dulliau teithio mwy ecogyfeillgar yn bosibl at ddibenion lleol a thwristiaeth. I gael y gorau o'r orsaf newydd hon, byddai'r gwasanaethau rheilffyrdd presennol yn cael eu newid, fel rhan o gynlluniau ehangach ar gyfer llwybr y Gororau.

**Sain Tathan** – yn gwasanaethu'r gymuned leol a Pharc Busnes Bro Tathan. Byddai'n cefnogi cynlluniau ehangach ar gyfer tai a busnesau yn yr ardal, gan gynnwys ailddatblygu hen safle gorsafoedd bŵer Aberddawan.

**Gogledd a de Wrecsam** – gwella mynediad lleol at y rhwydwaith rheilffyrdd. I gael y gorau o'r gorsafoedd hyn, byddai angen datblygu rhagor o welliannau i wasanaethau.

Amcan o'r gost: **Dros £150m**
(pecyn cyffredinol ar gyfer gorsafoedd)

## Y Gororau, Canolbarth Cymru a ffiniau Lloegr – Trydaneiddio'r Gororau

Mae trydaneiddio Llinell y Gororau yn cynnwys y llwybr o Gasnewydd i Crewe ac Amwythig i Gaer. Byddai trydaneiddio'n darparu trenau cyflymach, mwy gwyrdd a mwy dibynadwy ar y llwybr allweddol hwn ar gyfer teithio o'r gogledd i'r de gan gysylltu De Cymru, y Gororau, Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Ein huchelgais yw taith o lai na thair awr rhwng Caerdydd a Manceinion, er mwyn gwasanaethu cwsmeriaid lleol a chwsmeriaid sy'n teithio ymhellach. Gallai trydaneiddio'n rhannol gyda threnau batri fod yn opsiwn, ond byddai trydaneiddio'n llawn yn sicrhau bod anghenion yng nghyswllt cludo nwyddau yn cael eu bodloni'n well, ac yn arwain at fwy o fanteision o ran perfformiad.

Amcan o'r gost: **Dros £1bn**

## Estyniad rhwng Coryton a Radur

Byddai'r cynllun hwn yn ymestyn llinell Coryton i Radur gan ddarparu cyswllt strategol rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin ar draws maestrefi gogleddol Caerdydd, gan leihau'r angen i deithio drwy orsaf Caerdydd Canolog a gwasanaethu Parc Gwyddoniaeth Longwood Drive. Byddai'n golygu ailagor rhan o'r hen reilffordd yn ogystal ag adeiladu o'r newydd, gan gynnwys pont newydd dros Afon Taf. Byddai angen gwneud gwaith hefyd i wella capasiti cangen Coryton ymhellach.

Amcan o'r gost: **Dros £250m**

# Casgliad

Mae rheilffyrdd Cymru ar gam tyngedfennol. Bydd y camau nesaf yn cysylltu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu'n well, yn sbarduno twf economaidd, ac yn ein galluogi i greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gynaliadwy.

**Mae buddsoddiad parhaus a chefnogaeth y diwydiant yn allweddol i wireddu'r uchelgais hon. Gyda chyllid wedi'i dargedu, gall TrC a'n partneriaid greu rheilffordd sy'n diwallu anghenion pobl, busnesau a chymunedau ar draws Cymru a'r gororau.**


Dros y degawd diwethaf, rydym wedi profi ein gallu i gyflawni drwy drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a chyflwyno trenau newydd ar draws y rhwydwaith. Mae gennym y profiad a'r arbenigedd i arwain prosiectau seilwaith mawr. Rydym yn barod i barhau â'n gwaith gyda'r cynlluniau a amlinellir yn y weledigaeth hon.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu glasbrint cryf ar gyfer dyfodol rheilffyrdd yng Nghymru. Mae'n dangos beth gellir ei gyflawni, beth fydd y gost, a sut bydd yn trawsnewid y ffordd rydym yn teithio. Bydd sicrhau'r cyllid angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn yn diffinio'r 15-20 mlynedd nesaf o'n gwaith.

Gyda'n gilydd, gallwn greu'r rheilffyrdd y mae Cymru'n eu haeddu.



**Vernon Everitt**
Cadeirydd, Trafnidiaeth Cymru



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES